7FED O CHWEFROR

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol




## Wythnos yma

**Dydd Miwsig Cymru**

Rydym wedi cael mwynhau dathlu Dydd Miwsig Cymru heddiw yn yr ysgol. Diolch i Tara Bandito, Parisa Fouladi, Siani Sionc, Marged a Jacob Elwy am berfformiadau gwych! Roedd y plant wrth eu bodd ac wedi mwynhau yn fawr iawn.

Cafodd pawb gyfle i wneud gweithgareddau di-ri yn eu dosbarthiadau yn seiliedig ar Ddydd Miwsig Cymru a da iawn i bob aelod o Ysgol Treganna (gan gynnwys y staff!) am gyfrannu at ein cân a fideo yn dathlu Dydd Miwsig Cymru.

Diolch i Miss Morris a'r tîm sydd wedi bod wrthi yn paratoi ar gyfer y diwrnod. Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yn y cystadlaethau ac mae enwau'r disgyblion buddugol wedi eu nodi isod. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gystadlu!

**Urdd**

Mae'r disgyblion wedi bod wrthi dros yr wythnosau diwethaf yn ymarfer yr unawd a'r darn llefaru ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn eu dosbarthiadau. Cofiwch os ydy eich plentyn am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd mae rhaid iddynt fod yn aelod o'r Urdd. Dyma'r linc ar gyfer ymaelodi.
**https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/ymaelodi-dy-hun-dy-blant-neu-deulu-gydar-urdd/**
Cofiwch hefyd bod angen i chi fel rheini i'w cofrestru ar y Porth( sef system cofrestru cystadleuwyr ar gyfer yr Eisteddfod).
Dyma linc i'r Porth.**ttps://porth.urdd.cymru**
Os oes angen cymorth arnoch i wneud hyn neu os ydych chi am i ni wneud fel ysgol, cofiwch gysylltu. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru disgyblion i gystadlu yw dydd Llun y 17eg o Chwefror.

## Calendr

**Eisteddfod Offerynnol yr Urdd**
**Gwersyll yr Urdd Caerdydd**
**13/2/25**

**Diwrnod Diogelwch ar y Wê**
**11/2/25**

## Cystadlaethau Dydd Miwsig Cymru

Diolch i bawb wnaeth gystadlu yng nghystadlaethau Dydd Miwsig Cymru.
Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu. Dyma restr o'r disgyblion a ddaeth i'r brig.

### Lip-sync i Gân Gymraeg

£10 amazon

**Unigol, pâr neu grp**

Hunan-ddewisiad, heb fod yn hirach nag 1 munud.
Agored i bawb : plant, rhieni, neiniau, teidiau - a staff!

**Lotti Evans**

### Dawns Ystafell Fyw

£10 amazon

**Unigol, pâr neu grp**

Dawnsiwch yn hwylus i gân Gymraeg o'ch dewis chi, heb fod yn hirach nag 1 munud.
Agored i blant a theuluoedd.

**Cerys Powell**

### Creu crys-t ar gyfer eich hoff fand

£10 amazon

Beth am ddylunio crys-t deniadol ar gyfer eich hoff fand.
Agored i blant yn unig.

**Rozalia Cysewska Light**

**Dydd Miwsig Cymru 2025**

## Y Nyth

**Sesiwn i Rieni/Gofalwyr:**
Mae'r sesiwn efo Dr Luke Ryan, Seicolegydd Addysg yr ysgol, wedi cael ei ohirio tan y 4ydd o Ebrill 2025. Mwy o wybodaeth i ddilyn yn fuan.

**Fforwm Rhieni**
*Grŵp ar gyfer rhieni, cyn rhieni, gofalwyr, neiniau, a theidiau plant sydd wedi cael diagnosis Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses *o dderbyn diagnosis (h.y. ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol).*

**Paned a Chlonc** - cyfle i rieni ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned
Pryd? Dydd Gwener, 14eg o Chwefror (9.00yb – 10.00yb)
Cliciwch yma i gofrestru

## Arwydd Makaton yr wythnos

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Pryd mae pen-blwydd…?
Mae pen-blwydd…ym mis…

**Her**
Pryd gafodd e ei eni?/ Pryd gafodd hi ei geni?
Cafodd ei eni yn (blwyddyn) Cafodd ei geni yn (blwyddyn)

**Testun trafod yr wythnos**
Byddwn i'n hoffi adeiladu…

**Cân yr wythnos**
Dadleoli - Dalia Mlaen

**Idiom yr wythnos**
Arllwys y glaw